# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET - DYDD MERCHER, 5 CHWEFROR 2020

# IS-BWYLLGOR (CYLLID) Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: D.Jones (Cadeirydd) a/ac E.V.Latham

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

H.Jenkins a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd D Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi cymorth grant gwerth £320 y flwyddyn i Gyngor Cymuned Ystalyfera, tuag at swm rhent prydles Parc Godre'r-graig, Heol y Graig, o ddyddiad y cynnydd mewn rhent tan yr adolygiad rhent nesaf.

2. Ni ddylid rhoi unrhyw gymorth grant pellach i Ganolfan Gymunedol Noddfa, Glyncorrwg, yn dilyn penderfyniad blaenorol yr Is-bwyllgor hwn ar 9 Rhagfyr 2019.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

3. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEDDF Y DEGWM CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Ni ddylid darparu unrhyw gymorth grant y tro hwn i Gymdeithas Camlas Tawe.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5. **DILEU DYLEDION BUDD-DALIADAU TAI**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Dileu'r Budd-daliadau Tai, ar gyfer y symiau a ddisgrifir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Nid oes modd adfer y symiau sy'n ddyledus am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**